Pregeth dduwiol

yn traethu am iawn ddull,

ac agwedd gwir edifei-
rwch.

A bregethodd *A. Dent*, Gwenidog
Gar Duw,

Ac a gyfleithwyd yn Gamber-aec ar
ddymuniad ſyrnyn o ddynion duwiol yn
ewyllyſio ffynniant gwir Grefydd, a
chynnydd yn
y ffydd. Gan Mr. Robt.

Llwyd gynt Kiary Waunyn Sir Ddynbych

1. Cor. 1. 21.

Fe welodd duw yn dda trwy ffolineb pregethu, gadw y rhai ſy yn credu.

See Mr. Wms. catalogue

LLVNDAIN,
Printiedig gan NICHOLAS DERVVEN dros
MIHANGEL WREICHIONEN, ac
a geir ar werth yn y Gwydd-dŷ Gwŷrdd
tan arwydd y Bibl-glâs.
1629.

BIBLIOTHECA · BODLEIANA

BIBLIOTHECA · BODLEIANA

Yr Awdur at y darlleydd.

ER fy mŏd yn an-ewyllysgar i ollwng syngwaith gwael hwn, am talent distadl i syned allan yn gyhoeddus ar osteg y byd, yn gystal o herwydd na byddei mewn golwg ond megis cannwyll fechan a oleuid ganol dydd, ac am fod gwaith llawer eraill o wŷr poenus, a ryglyddai yn deilyngach eu gosod mewn print: etto o herwydd bod llawer or sawl a glywsent ei phregethu ar dafod-leferydd yn dirio arnaf yn daer am ei chael hi allan yn gyffredin; gan roddi trostynt y cyfryw resymman, ac na allwn i yn hawdd eu gwrth-eb, a hybu arnynt, mi a ymroddais o'r diweddi gyflawni eu dymuniad, ac felly y daeth y ffrwyth anhymmig hwn iw werthu ar osteg yn y marchnadoedd: na chymmered neb dramgwydd, ac na thybied yn waeth o honof, na cheisiais ymorchestu i ehedeg yn vchel, a gwneuthur gwâg ffrôst o ddoethineb dynol, drwy ddangos allan olwg têg oddysceiaedith, a chwythu chwsigen oferedd hyd oni dorrai o ym-

wydd, nid hyn yw fy arfer i, Iechydwriaeth y rhai difedr, ac anneallus yr wyfi yn ei geisio yn bennaf, ac yn ymorol am dano; ac i gyrhaedd hyn yr wyf yn ymostwng yn issel at eu synwyr hwynt, a'u dalltwriaeth.

Am hynny attolwg i ti, y darllenudd hygar, dderbyn yn gymmeradwy fy ewyllys-garwch, am pur-amcan. Darllein y bregeth hon yn ddifrêg, ac yn ddi-ddrwg-dybus; Ac ymfonlona ynddi fel y derbyniech lesad odiwrthi; Ac fellyy cei di glôd gan Dduw, a diddanwch i'th gyd wybod.

* *
*

Pregeth

Pregeth a'm Edifeirwch.

Luc. 13. 5.

Nac oeddynt, meddaf i chwi: Eithr onid edifarhewch, chwi a ddifethir oll yn y vn modd.

Chlyſſur y geiriau ymma, yrhai a lefarodd ein Harglwydd a'n Achubwr Ieſu Criſt, a dyfodd o hyn, ſef ddyfod o rai atto, a mynegu iddo am y Galileaid, y rhai y cymmyſcaſai Pilat eu gwaed a'u haberthau, nid amgen, ai lladdaſai hwynt ſel yr oeddynt yn aberthu; ac felly y cymmyſcwyd eu gwaed hwynt, a gwaed yr anifeiliaid â aberthent. Y rhai a fynegaſent hyn â dybient fod y Galileaid hynny yn fwy pechaduriaid na'r Galileaid eraill, am iddynt ddioddef y cyfryw beth. A bod y deunaw hynny ar ba rai y ſyrthiaſai y tŵr yn Siloam, ac y lladdaſai hwynt, yn fwy pechaduriaid na'r rhai oll â breſwylient yn Ieruſalem. Wrth yr hyn

beth y datcuddiasant fâth ar lygredigaeth dirgel, yr hwn o naturiaeth sydd yn dilyn pôb dŷn, nid amgen, cantod yn grâff bechodau rhai eraill, a'u barnu yn ddifadden, eithr yn y cyfamser coluro eu beiau eu hunain, a bod megis yn ddeilliaid heb eu gweled.

Canys y gwŷr hyn â dybient o herwydd na ddigwyddasai iddynt hwy y cyfryw drychineb, eubod yn dda eu helynt, ac nad oeddynt gymmaint pechaduriaid, ond yn hytrach yn fawr eu cymmeriad gyd a Duw; megis y mae llawer yn camsynnied, mai y rheini yw'r fâth waethaf ar ddynion y rhai y mae Duw fynychaf yn eu curo, ac yn eu costwyo ai law geryddol. Anghofio y maent nad ydyw Duw ymma ar y ddaiar yn cadw trefn anghyfnewidiol i gospi pôb dŷn fel y mae efe yn waeth nac eraill, neu iw fawrhau, a gweuthur iddo spleddach fel y mae yn well nac eraill: Eithr yn vnig cymmeryd y mae efe rai siamplau (fel y gwelo yn dda) iw gosod yn athrawiaeth, ac yn rhybudd i bawb eraill, ac megis drychau y gallo pôb dyn weled ynddynt ei wynepryd ei hûn, a'i gyflwr ei hûn; a bod Duw yn dial pechod yn dôst, mal wrth esampl rhai y gallo pawb ymogelyd, rhag yscatfydd y perir iddynt hwythau gadw eu cylch, a dwyn eu baich drwy gydnabod

beth

beth y maent yn ei haeddu.

Y gwŷr hyn y rhai a ddygalent y newyddion ymma at ein Achubwr Crist â ddalient yn dynn yr opiniwn hwnnw. Ac o hyn y mae ein Achubwr yn cymmeryd achlyssur i gerydду eu hamryfusedd, ai camsynnied hwynt, ac i ddyscu iddynt na ddylent lawenychu wrth weled rhoddi cyssawn gospedigaeth ar eraill, ond yn hytrach cymmeryd addysc, a rhybudd o hynny i edifarhau am eu pechodau eu hunain.

Yelyd er mwyn arwyddocau nad ydyw Duw bôb amser yn y byd ymma yn dwyn y dialedd trymmaf ar y pechaduriaid annuwiolaf, megis llofruddion, lladron, yspeilwŷr puttein-wŷr, cablwŷr, terfysc-wŷr, gwat-worwŷr, ar cyffelyb: ond yn eu cadw hwynt i farn y dydd mawr, ac megis yn eu pesci erbyn y dydd lladdfa, ac am hynny y mae yn atteb iddynt ar wâd gan ddywedyd: Nag ydynt, neu nid felly, eithr onid edifarhewch chwi a gollir oll yn yr vn modd. Megis pe dywedasei: A ydych chwi bawb or meddwl hwn yn ddiau, mai pechaduriaid dybrydd yn dnig â gospir yn y byd ymma, ac y diange eraill? Neu fod y Galileaid ar deunaw hynny ar ba rai y syrthiodd y tŵr yn Siloam yn fwy pechaduriaid na phawb eraill? Neu a ydych chwi yn tybied, o oblegit na syrthiodd

thiodd yr vnrhyw ddialedd arnoch chwi, am hynny y cewch, ddiſmwytho ymmaith megis yn y tywyll, a diangc chag barnedigaethau Duw? Na chewch, na chewch, yr ydych yn camgymmeryd. Canys meddaf i chwi oddieithr i chwi alaru, ac ymofidio am eich pechodau, a chymmodi â Duw mewn pryd chwychwi, ie chwychwi meddaf (y rhai ydych mor bryſur i farnu eraill, ac i'ch cyfiawnhau eich hunain) nid yn vnig a ddifethir ar cyffelyb farnedigaethau yn y byd yma, eithr â gondemnir yn dragwyddol yn y bŷd a ddaw.

Ac felly ein Achubwr wrth ddywedyd hyn ſydd yn bygwth barn ofnadwy i ddyfod ar nom bawb oll: Canys penderfynu y mae, a chloi ei reſwm am bob dŷn byw ar wyneb y ddaiar, pa vn bynnag ydyw ai vchel, ai iſſel, ai cyfoethog, ai tlawd, ieuangc ai hên; honeddig ai gwrêng; dyſcedig, ai annyſcedig, gwirion-ffôl ai cyfrwyſgall, o ba gyflwr, neu râdd, neu fraint bynnag y byddo yn byw, ac yn marw yn ddiedifeiriol, y collir hwynt oll, ac y condemnir yn nhân vffern yn dragwyddol. Llawn yw'r Scrythyrau or cyffelyb ſygythiadon, Io. 3. 18. Yr hwn ni chredo a gondemnwyd euſys. Ac 2. Cor. 13. 5. Profwch eich hunain a ydych chwi yn y ffydd: holwch eich hunain: ond ad-

waenoch

waenoch eich hunain fod Iesu Grist ynoch oddieithr eich bod yn wrthodedig? Lle y mae yr Apostol yn ysprydu yn amlwg nad ŷnt y saŵl oll ar nad oes ganddynt Grist yn aros yn eu calonnau trwy ffydd, yr hon yw chwaerdeuluol edifeirwch, nad ŷnt meddaf ddim gwell eu braint na dynion anghymmeradwy, gwrthodedig, a damnedig.

Eithr o herwydd bod y rhan-fwyaf yn y dyddiau hyn mewn sommedigaeth dybryd, a chamsynnied gresynol ynghylch edifeirwch, yn gystal eisieu gwir-wybod pa beth ydyw, beth y mae yn ei ddeall; beth y mae yn ei weithio; beth yw ei gynneddfau, ai gampau, pa achosion sydd iddo; a pha rwystrau, a lluddias sydd arno, ac hefyd pahaŵn, pa brŷd ac o ba herwydd y dylem edifarhau: or achos hyn y mae yn fy mryd i yr awr hon ddangos

1. Pa beth yw edifeirwch.
2. Pa rai yw ei gynneddfau, ai ffrwyth.
3. Pa brŷd y dylem edifarhau.
4. Paham y dylem edifarhau.
5. Pa beth sydd yn rhwystro edifarhau: yr hon draethn, a dull ar athrawiaethu, er nad yw rhai yscatfydd yn fodlon iddi (megis yn ddiau nad wyf fi yn ei mynych arfer) etto wrth ystyried y matter sydd gennif yn llaw, nid wyf yn tybied y ffordd hon yn anghymmwys.

Eithr

Eithr at y matter:

Edifeirwch yw trifftwch, a galar gwaſtadol yn y galon, ar gydwybod oddifewn, ynghyd a ffydd, a gwellhâd oddi mewn, ac oddi allan. Oddi mewn (meddaf) dŵr newidio meddyliau, a nwydau'r galon: ac oddiallan dŵr newidio y geiriau, ar gweithredoedd o ddrwg i dda. Dymma'r edifeirwch yn ddiammeu, oedd yn Nafydd, yr hwn pan geryddwyd ef yn gyfrwyſgall gan y Prophwyd Nathan dŵr ddangos iddo ei bechodau oflaen ei lygaid. Ni ſafodd efe yn yſtyſnig ar ei wâd, gan ymoryſciwyddo a Duw: ac nid eſcuſodd hwynt chwaith yn ddirgel dŵr eu coluro, ond efe a lefodd yn chwerwder ei galon, Myfi â bechais. Ac ar hynny a wnaeth 51. Pſalm. Pſalm yn ddiau llawn galar, a thrymder, yn yr hwn y mae'r Prophwyd yn cwynfan am ei bechodau, ac yn ymoſtio tros ei feiau, ac yn gweddio am galon newydd, ac yſpryd newydd, meddyliau newyddion, nwydau newyddion, a bwriadau newyddion i wellhau ei fuchedd, feily mewn Dafydd nyni â welwn fod trifftwch, a gofid gwaſtadol (megis ym mhôb man y dengys llyfr y Pſalmau, yr hwn ai geſyd ef yn am lwg megis yn ei lun ei hûn) ie a dîwygiad mawr ar bechodau oddi mewn, ac oddi allan.

Gwel-

Gwelwch ymma gan hynny beth yw edifeirwch. Felly S. Petr wedi darfod iddo drwy wendid wadu ei Arglwydd ai feistr Crist pan ei dwylsbigwyd gan ei gydwybod ei hûn, ac y dechrowyd gan ddiaspod ceiliog yn canu, â aeth allan o lŷs Pilat a chalon drom, gan wylo yn chwerwdôst, ac byth yn ol hynny a gyffessodd Grist yn gefnog, ie hyd angeu. Gwelwch gan hynny pa beth yw edifeirwch.

Y Prophwydi yn yr hên destament wrth gynghori yr Iuddewon gwrthnyssig i edifarhau â arferant fynychaf air yn arwyddocau yn yr Hebrze-aeg, trowch: neu dychwelwch, a deuwch yn ôl drachefn. Wrth yr hon drawsymddwyn neu gyffelybiaeth y deellir, mai mogis y mae yn rhaid ir dŷn a gyfeilio rno ym-mhell allan oi ffordd, ddychwelyd yn ôl eilwaith ar hyd ei wrthol: felly y rhai a gyfeilio rnasant o ffordd ddnwioldeb i ffordd perhod, rhaid iddynt ddychwelyd yn ôl eilwaith cyn gynted ac yr aethent ymlaen, a newidio yn hollawl helynt, ac ystod eu buchedd: felly edifeirwch yw dirfisol ddychwelfiad at Ddnw ar holl galon, enaid, a meddwl.

Ioan Fedyddiwr, a'r Apostolion yn y Testament newydd wrth annog i edifeirwch â arferant Roeg-air yn arwyddocau newi-

dio'r

dio'r meddwl, neu cyfnewidfryd synhwyrol or diwedd; i arddangos fod y rhai a ddarfu iddynt ar y cyntaf trwy eu ffoledd, ac eifieu synwyr lithro i ddyfn-bwll, ac enbydus drochlyn pechod, pan ddelont i wybod oddiwrthynt eu hunain, ac i gasclu eu synwyr ynghyd, yn synhwyroli eilwaith, ac yn cymmeryd gofal rhag syrthio yno drachefn, yn ôl y ddihareb, Y plentyn â loscer ei fŷs â ochel rhag y tân.

Erbyn hyn gobeithio eich bod yn gweled pa fâth beth yw edifeirwch nid pôb tristwch ond tristwch am bechod; nid am ryw fâth ar bechod, ond am bôb pechod; nid tros awr, ond tros byth; nid tros ddiwrnod, ond yn wastadol, nid tros wythnos, ond tra y byddom byw ar y dddiar.

Rhai â dybiant mai edifeirwch yw pôb tristwch, eithr felly yr edifarhauei y bydolfeddwl: Rhai â dybiant mai edifeirwch yw pôb ochenaid am bechod, eithr felly yr edifarhauei Pharaoh: Rhai â dybiant fod pôb wylofain, a chwynfan am bechod yn edifeirwch, eithr felly y byddei Cain, Esau, a Iudas yn edifeiriol. Rhai â dybiant mai edifeirwch yw pôb rhith ar ymddarostwng, ond felly yr edifarhauei Ahab: Rhai â dybiant mai edifeirwch yw pôb gweithred dda, ac amcanfryd duwiol, eithr felly y gallei pôb clâf edifarhau.

farhau. Rhai â dybiant mai edifeirwch yw gwellhâd ar eiriau, a gweithredoedd ond felly y gallei pob dyn bydol-ônest edifarhau: Rhai â dybiant fod dywedyd (Duw madden ini) yn edifeirwch, ac felly y byddei pôb ffôl yn edifeiriol.

Chwi â welwch wrth hyn faint sy yn eu twyllo eu hunain ynghylch edifeirwch. Eithr os ewyllysiwch wybod yn sicrr beth yw edifeirwch, edrychwch yn ôl ar yr hyn a ddywetpwyd or blaen. Canys yr hwn a synno edifarhau o ddistrif, nid digon yw iddo yn unig ostwng ei ben fel brwynen fros ddiwrnod, ac yno diweddu: na dywedyd ar flaen ei dafod, Duw madden i mi, heb ddim ond hynny: ond y mae yn rhaid iddo ail bwrw ei gystrif, a dysgl-ystyried ei fuchedd or blaen, fel y gwnaeth y Prophwyd Dafydd; Myfi a ystyriais fy ffyrdd, ac â droais fy nhraed at dy destiolaethau. Felly y mae yn rhaid i bawb â sydd ar fedr edifarhau, ymneillduo ar ddidol i felwn rhyw gongl, fel y gallo gael hamdden, ac achlysur i ymliw ai gydwybod ei hûn, ac i wneuthur iw galon ferwino, ac ymoffdio am ei bechodau, drwy beri iddi grâff-synnied eu haruthredd hwynt, ac ystyried yr holl achosion ai denodd, ac ai hudodd i bechu: megis yn Daniel y mae eglwys Dduw yn cyffessu ei hanwireddau, nid

yn

yn yſcafn, ond yn ddifrif-ddwys drwy ben-lynu y naill beth ar y llall i yſpyſſu geuogr-wydd y cwbl; yn gymmaint ac nad digon yw dywedyd, mi â bechais: eithr dywedyd mi â bechais yn aruthr, mi â bechais yn wrthnyſſig, yn ddiofal, yn anvſydd. Mi â dramgwyddais yn gywilyddus yn y lle a'r lle: yn y tŷ a'r tŷ: gyd â y rhain, a'rrhain ar y dydd a'r dydd: yn y cyfryw gongl, ar nôs a'r nôs y godinebais yn ddirgel pan oeddwn yn tybied nad oedd nêb yn fyngweled, yn y cy-fryw ſſafell y gorweddais gyd â gwraig fy-nghymmydog, a'm cydwybod ſydd i'm cy-huddo am hynny.

Ynghymdeithas y rhain ar rhain y medd-wais, y ceblais air Duw, y gwatworais y Pregethwr, ni ruſſais dyngu pôb mâth ar lwon, ac adrodd ſerthedd. Ac yr awr'hon o Arglwydd Dduw pa anghenfil anfatynedd, pa diffeith-was coeglyd wyf fi? Ymma yr wyf yn ſefyll yn dy ŵydd di yn llwyr-noeth, yn ddall, yn glwyſus, yn dlawd, yn druan, ac yn reſynol: yn deilwng o fîl o ddamnedi-gaethau, ped ait ti i'r farn am fi, a rhoddi'r gyfraith i'm herbyn. Am hynny yr wyf yn attolwg i ti doſturio, a thrugarhau wrthif. Ira fy archollion ac olew dy drugaredd, dyro i mi fyngolwg, a chuddia fy noethni, cyfoe-thoga fi yr hwn ŵyf dlawd, cryfhâ fi yr hwn

wyf

ŵyf swan, cymmorth fi yr hwn â syrthiais: ô na ddôs ymmaith oddi wrthif. Y plentyn a gynnyrfa ei fam i gymmodi ag ef drwy lefain arni; a'r mâb drwy wylofain a nadu â ynnill fodd ei dâd: ar gwâs â orchfyga ei feistr drwy ymbil ag ef. Ac oni chynnyrfir di i dosturi, O Arglwydd? Mal hyn, meddaf pe bai pôb dŷn yn llefaru yn ei gydwybod wrth Dduw, ac mal hyn yn fanwl, neu yn fanylach yn ei holi ei hûn, diammeu y byddei efe ar wir ffordd edifeirwch.

Ond sywaeth blîn yw ystyried pa wedd y mae dynion y bŷd hwn yn ei coeg-ddallineb a'u hamryfusedd yn myned ar ddidro oddiwreh yr iawn ffordd hon, gan eu twyllo eu hunain drwy ymfodloni ag enw, ac heb ddim ganddynt ond enw edifeirwch. Llawer, yn wir, â siaradant am dano, ond y chydig a rodiant ynddo: llawer ai crybwyllant, ond y chydig ai clywant: llawer ai darluniant, ond nid oes nemmawr ai hadwae nant.

Cuddiedig yw edifeirwch, ac megis tan glô rhag y byd, ac wedi ei ddatcuddio i blant Duw yn vnig. Llawer â dybiant gael o honynt afael arno, prŷd na chawsant ond ei gyscod: Cyfuwch ydyw ac na ddichon nemmawr ei gyrhaeddyd. Cyn ddyfned yw ac nad oes ond rhai yn cael ei waelod: mor gy-

syng yw, ac na ddichon pawb syned i mewn iddo: mor chang ac na ddichon ond y chydig ei amgystred: Cyn llithricced ac na ddichon pawb gael gasael ynddo: mor guddiedig ac nad oes ond rhai â fedrant ei gael.

Am hynny sy mrodyr annwyl, attolwg i chwi moeswch i ni weddio ar ein Duw ni, ar ddatcuddio o honaw efe i ni y dirgelwch hwn â guddiwyd oddiwrth y byd, fel y gwelom ef, ac yr adwaenom, ac y caffom, ac y clywom i'n diddanwch didrangcedig trwy Jesu Grist, yr hwn râd â ganniadhao efe i ni.

Eithr bellach at yr ail pwngc, ynghylch cynneddfau, a ffrwyth edifeirwch, vn rhinwedd enwedigol o wir edifeirwch yw dwyn ganddo bob amser faddeuant pechodau. Oblegid lle yr elo gwir edifeirwch or blaen, ni ddichon amgen na bo maddeuant pechodau yn canlyn: Nid o herwydd bod edifeirwch yn haeddu maeddeuant pechodau, ond o herwydd lle ymae Duw yn gweithio edifeirwch, yno y mae efe yn maddeu pechodau oblegit ei addewid. Megis yn Ezechiel: Pan ddychwelo y drygionus oddiwrth ei ddrygioni awnaeth efe, a gwneuthur yr hyn syddo
Eze.18.27. cyfiawn, ac vnion, efe a geidw ei enaid yn fyw. Ac eilchwel. Ymwrthoded y drygio-
Esay 55.7. nus ai ffyrdd, ar anghyfiawn ai amcanion a dychelew

dychweled at yr Arglwydd, ac efe â dosturia wrtho. Felly nyni â welwn ymma i bwy ymae maddeuant pechodau, a thrugaredd Duw yn perthyn: Sef ir pechadurïaid edifarus, i'r rhai â ymadawant a'u ffyrdd eu hunain, ac a'u dychymmygion, ac â droant at yr Arglwydd.

Ac am y saîl â rodïant yn eu ffyrdd eu hunain, ac â ddilynant ddigrifwch pechod, heb na thristau am danynt, na bwriadu eu gadael ymmaith, nid oes iddynt â wnelont a thrugaredd Duw. Ac pe dioddefasai Iesu Grist fil o farwolaethau (yr hyn beth nid oedd bossibl) er hynny ni chaiff yn-dyn diedifarus faddeuaint o'i bechodau drwy ei farwolaeth ef, na dim llesâd arall o'i ddioddefaint ef.

Canys y pethau hyn â berthynant iw eglwys ei yn unig, ac iw ddewisedig bobl ymma ar y ddaiar. Pwy bynnag gan hynny nid yw or eglwys, pwy bynnag nid implwyd yng-Hrist drwy ffydd, pwy bynnag nid yw aelod o'i ddirgel gorph ef, ni ddichon gael dim mwynïant oddiwrth farwolaeth Crist. Onid erys dyn ynosi, efe â deflir allan sel cangen, ac a wywa, ac hwy a gesclir, ac â deflir yn tân, ac a loscir. Ioan. 15. 16

Darllein yr ydym yn Deuteronomi: Fod Duw yn cau allan bob mâth ar bechadurïaid

anhydyn oddiwrth ei drugaredd, ac yn dra ofnadwy yn ergydio ei saethau yn eu herbyn. Yr hwn a glywo eiriau y cyngrair hwn, ac
Deut. 29. â ymsendithio yn ei galon ei hûn gan ddywedyd: Heddwch fydd i mi pan rodiwyf yng-hyndynrhwydd fy nghalon i chwanegu meddwdod at syched. Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo, canys yna y myga digllonedd yr Arglwydd, a'i eiddigedd yn erbyn, &c.

Felly y mae Duw yn dywedyd yn eglur, nad oes ganddo ef ddim trugaredd ir fawl â rodiant mewn oferedd, a digrifweh eu pechod, ac ynghyndynrhwydd eu calonnau drwy chwanegu meddwdod at syched, nid amgen cyflyltu y naill berhod ffiaidd at y llall: Ac etto er hyn ei gyd peth rhyfedd yw gweled pa wedd y mae pryfedos coeg-ddeillion y byd hwn yn eu siommi eu hunain.

Canys tybied y maent mai pa beth bynnag â ddywedont, pa beth bynnag â wnelont, bid drwg, bid da, byddont edifeiriol, neu ddiedifeiriol, etto y byddant cadwedig trwy farwolaeth Crist: Megis pe gwnaent ef yn llattai perhod, ac felly gweithio y drygioni hlonnw yn erbyn Crist.

Gobeithio, medd rhai, y byddaf cadwedig drwy farwolaeth Crist yn gyffal ar gorau o honynt.

o honynt. Ond p'le y mae dy edifeirwch di o ddŷn anhappus? A wyt ti yn tybied fod trugaredd Ddduw yn gyffredin i bawb? A bod marwolaeth Crift yn llattai i'th bechodau di? Nid felly, pan ddeuer i chwareu am y da, fe geir dy weled ti yn glôff.

Canys yn y gwrthwyneb y daw brenddwydion. Ti â gei weled trugaredd Ddduw yn troi yn gyffawnder, a marwolaeth Crift yn wermod, o herwydd it gafau gwybodaeth, ac na ddetwifaift ofn yr Arglwydd. Mal hyn chwi â welwch fy mrodyr annwyl, fod yn rhaid cael edifeirwch o flaen maddeuant pechod: ac pryd na byddo efe yn cadw y blaen, yna y bydd drûs trugaredd Ddduw wedi ei gau: ac dymma y gynneddf gyntaf i edifeirwch.

Rhinwedd arall mewn gwir edifeirwch yw newidio, a throi dynion oz hyn oeddynt oz blaen, ir hyn nid oeddynt: ar newidiad hwn fydd nid o ran fylwedd, a hanfod corpholedd, ond o ran rhinweddau, a chynneddfau y meddwl.

Canys pwy bynnag a gymmerth wir edifeirwch, chwi a gewch weled yn y man ynddo ef newidiad dieithrol, a rhyfeddol; yn gymmaint, ac na wna efe er dim, y peth â wnaeth, ac ni ddywed y peth â ddywedodd, ac ni ddilyn y gymdeithas y bu gynt ynet

dilyn, na bod yn gydymmaith da fel y byddei arfer, ac ni lŷn wrth y cyfryw ryfedd, ac yr ydoedd gynnefin ag ef. Ac dymma'r peth fydd yn peri ir byd fynnu, a brochi, a chyffroi yn anguriol, a chablu y fawl a ddychwelont at Ddaiw.

Canys y mae'r byd yn caru yr eiddo ei hûn, ac ni all oddef i Ddduw dynnu vn bluen allan o'i adenydd ef: Eithr edifeirwch fy'n tynnu dynion o drais allan o ewinedd y cythraul, ac yn eu newidio oddiwrth helynt y byd: Dbegit y mae efe yn gwneuthur dŷn, o falch yn oftyngedig; o ddrygionus yn ddiniwed; o greulon yn lledneis; o flaidd yn oen; o lew yn ddafad; o odinebwr yn ddiwair; o feddwyn yn ſobr; o dyngwr yn ymadroddwr parchedig; o gas-ddŷn yn gyfaill; o ddirmygwr yn hôff; o wawd-wr yn garedig; o fydol yn Yſpryd ol; ac o gythraul yn Sanct. Yyn oll a weithia edifeirwch.

Paul oedd gynt yn ei daith i Ddamaſcus yn flaidd, yn erlidiwr, yn fugn-wr gwaed, yn dal câs, yn ddirmyg-wr: Eithr cyn i fynedpuo, pr oedd y glôr wedi ei newidio yn hollawl, ac o feddwl arall; mor rymmus oedd yr hyn ai cyfarfu ar y ffordd: Pan anfonodd Criſt Iefu yr Yſpryd Glân i lawr ar ei ddiſcyblion, yn ôl ei addewid, yr oedd rhai gwatworwyr yn Ieruſalem, yn gwneuthur gwawd

gwawd gan ddywedyd. Llawn ydynt o wîn newydd: Ond yr vn gwŷr â lefasant yn y man yn ôl hynny: Ha-wyr frodyr pa beth â wnawn ni i fod yn gadwedig?

Dyna newidiad rhyfeddol mor ddisymmwth. Gwelwch wrth hynny rym edifeirwch, pan ei gyrro Duw ef i galon dyn, ac y tarawo yr hoel hyd y pen, gweithio â wna y peth nis gall holl ddoethineb, a chyfrwystra synnwyr dyn ei gyflawni. Ac darfyddo iddynt wybro, ac wlian i fynu, ac i wared, a chwilottach hôll gonglau eu synnwyr, etto ni ŵyddant ddim oddiwrth y gorchwyl hwn, na phâ le y dechreuant i newidio calon dŷn, ac iw droi ef at Dduw.

O herwydd hyn y mae edifeirwch yn gryfach na'r hôll fŷd, ac yn gweithio y peth ni ddichon hôll ddynion y byd, a'u synnwyr naturiol, a'u pennau cyfrwysgall, a'u dychymmygion deallgar ei gwplau. Canys ymchweliad pechadur ir iawn gwaith goruwch naturiol ydyw. Dymma i ni ddrŷth i edrych ynddo, arnom ein hunain, pa vn â wnaethom erioed ai edifarhau, ai peidio. Oblegid oni chawn ynom ein hunain y newidiad hŵn, ni ddarfu i ni etto edifarhau, ac os felly, aros yr ydym tan ddamnedigaeth.

O herwydd hyn edrychod pob dyn arno

ei hûn. Canys pa faint bynnag a newidiwyd arno, ac y trôdd oddiwrth ei ffyrdd drygionus gynt, cymmaint a hynny â edifarhaodd efe.

A phwy bynnag fydd yn aros, pr awr'hon yn yr vn cyflwr, ar vn fâth ddŷn ac ydoedd efe dair, neu bedair, neu ŵyth mlynedd ir awr'hon, neu er ys dêg ar hugain, neu vgain; diau, diau, nad edifarhaodd efe etto, ac am hynny y mae yn aros tan farnedigaeth.

Dherwydd hyn y mae yn rhyfedd gennif pa fodd y gall y gwŷr hyn, y rhai ni chlywsant etto ddim newidiad yn gweithio ynddynt; nagê y rhai y mae eu cydwybod yn dywedyd iddynt na newidiwyd hwynt etto, ac ni wyddant beth yw y newidiad hwnnw, pa fôdd meddaf y gall y gwŷr hynny obeithio am iechydwriaeth? Ddieithr yscatfydd nad ydynt yn credu yr atbrawiaeth ymma, ond tybied nad yw hi wir. Myfi â ddanfonaf y gwŷr hyn at rai â fuont yn yr vnrhyw gyflwr ag ymaent hwy yr awr'hon, ac er hynny â dybient eu cyflwr yn ddigon da, er eu bod yn ddeilliaid yn eu barn, ac yn halogedig yn eu buchedd. Myfi â adwaenwn, gynt ac a adwaen ddynion yn awr, y rhai cyn eu ymchweliad, a'u newidiad oddi mewn a gyfrifid yn onefted gwŷr ar gonestaf â fuyttaodd

fara,

kara, ac mor gymmeradwy ac y gallai wŷr fod; yn trîn y byd yn dnion, yn byw yn ddiargyoedd, yn cynnal tai yn dda, ie ac yn tybied yn dda o honynt eu hunain: ac er hyn ei gŷd, pan ymwrandawsant hwy ag edifeirwch yn gweithio ynddynt y newidiad hwn, trwy rym yr Yspryd ar bregethaidy gair: a phan roddwyd iddynt galonnau newyddion i fedru dirnad yn well, a llygaid o newydd i weled yn graffach; megis rhai wedi diangc rhag rhyw enbydrwydd, synnu â gwnaethant, a rhyfeddu mor ddall-efrydd oeddynt or blaen gan dorri allan ir cyfryw ymmadroddion hyn: nid amgen, na fynnent eu bod yn yr un cyflwr yr oeddent ynddo or blaen, ie er da yn y bŷd. Canys pe buasent feirw yn y cyflwr hwnnw, diammau oedd ganddynt y buasant wedi eu condemnio. Dnd pa gyflwr adolwyn yr oeddynt hwy ynddo or blaen? Dnid oeddynt wŷr oneſt, o gymmeraid da, yn byw yn ganmoladwy, ac yn cael parch i ba le bynnag y deuent? Yn wir felly yr oedd y byd yn eu cymmeryd hwynt.

Dnd yr awr'hon tybied y maent hwy o honynt eu hunain yn amgenach o lawer, wedi agoryd eu llygaid, a goleuo eu deall. Canys y maent yn gweled y peth ni welent or blaen: yr awr'hon y maent yn deall fod Duw yn euog farnu llawer, y rhai y mae'r byd

byd yn eu cyfrif yn gyfiawn, I'm tŷb i fe ddylei y fiampl hon beri i ddynion bydoneſt ofni, ai dryg-dybio eu hunain, ac adnabod eu trueni o flaen Duw.

Dblegid yr oedd y rhai gynne yn gyftalgwyr â hwythau, ie cyn eu ymchweliad ac etto yn cyfaddeu wedi hynny eu bod yn ſoddi i waelod vffern, ac yn boddi yn nyfnder damnedigaeth. Yr hwn fydd ganddo gluſtiau i wrando gwrandawed, a'r hwn fydd ganddo lygaid i weled, gweled: Canys o myn dynion eu fiomni eu hunain er â aller iddynt, ſef hyderu y byddant cadwedig heb glywed ynddynt ddim newidiad, neu waith edifeirwch, fe fydd drûd iddynt yn y diwedd.

Dblegid geirian Criſt â ddaw yn wir, y bydd colledig pwy bynnag nid edifarhao, ſef y condemnir pwy bynnag nid ymwrandawo ynddo ei hûn beth ydyw edifeirwch, ac ni chaffo ynddo ei hûn y cynneddfau ſy yn ei ddilyn.

Canys lle y byddo edifeirwch, yno y bydd cenedfau edifeirwch: ac lle ni byddo y cynneddfau, yno ni bydd dim gwir edifeirwch. Ac felly lle y dywedodd Criſt oddi eithr i chwi edifarhau, chwi a gollir oll; Yr yn fâth ydyw â phe dywedaſai, Oddi eithr eich bod yn adnabod gwir edifeirwch, oddi eithr i chwi allu profi i'ch cydwybod faddeuaint eich pechodau:

dau: oddieithr i chwi fod yn clywed yn eigion eich calonnau newidiad, ac ymadawiad oddiwrth eich ffydd anwireddus, a'ch drwg ymddygiad gynt chwi â gollir yn ddiddadl, ac a fyddwch damnedig. Eithr moeswch i ni pchydig etto ymhellach chwilio allan am gynneddfau editeirwch.

Yr Apoſtol at y Corinthiaid ſydd yn dangos ſaith o gynneddfau hynod, a digwyddiadau edifeirwch.

Y cyntaf or rheini â eilw efe Gofal: Canys wele (medd efe) hyn ymma, driſtau o honoch chwi yn ddnwiol pa ofal â weithiodd ynoch? hynny yw, amcanfŷd difrifol, a bwriad gofalus i fodloni Duw: Canys lle y bu gwir edifeirwch bnwaith yn gweithio yno y daw gofal mawr gwedi hynny: gofal (meddaf) am fyw mewn bŷdd-dod tu ag at Dduw: gofal am gadw cydwybod dda: gofal am ddiwygio ein teulu: gofal am ddyſcu ein gwragedd, a'n plant, a'n gwaſanaethddynion yngwybodaeth o Dduw: gofal am weddio gyd â bwynt fo'reu, a hwyr: ac yn gyffredinol gofal i gyflawni pôb dyled-ſwydd perthynol i Dduw: felly nid peth diofal, ond peth gofalus yw edifeirwch.

Ac na feddylied nêb tra fyddent hwy yn ymdreiglo mewn diofalwch cnawdol, ac yn cyſcu mewn difrâwch holl ddyddiau eu bywyd,

wydd, fod er hynny eu hedifeirwch hwynt yn ddinam: Je, ac er eu bod yn treulio diwrnodau, a noſweithiau, a miſoedd, a blynyddoedd cyfein mewn oferedd a chwareuon, a difyrrwch: mewn ſeguryd, ffol-ddigrifwch, meluſwedd, a maſwedd, drwy eſceuluſo pôb dyled-ſwydd, anghofio Duw, a ditmygu pob peth dâ, er hynny ei gyd eu bod yn edifarhau am eu pechodau, ac yn gobeithio bod yn gadwedig yn gyſtal ag eraill. Dnd (gwae finnau) pa fodd y gall y pethau hyn gyd-ſefyll, ſef edifarhau am bechod, ac ymddigrifo mewn pechod; caſau pechod, a charu pechod; Foi rhag pechod, a dilyn pechod. Eithr y gwŷr hyn, mi â welaf, a fynnent wneuthur S. Paul yn gelwyddog: Canys efe a ddywaid, nad edifarhaodd dŷn erioed oddieithr fod o honaw wedi hynny yn ofalus am fodloni Duw, hwy â ddywedant fod yn edifar ganddynt er na buont erioed yn byw yn ddiffeithiach, ac yn ddiofalach. Dnd pan ddelo pôb mâth ar ddynion afreolus, a drŵg fucheddol: pan ddelo puttein-wyr aflân, glythion amfeilaidd, a ſegur-wyr diofal-frŷd i deyrnas Dduw, a bod yn gadwedig, yno y caiff y gwŷr hyn ddyfod heibyd gyd â hwynt, a bod yn gadwedig drwy eu diofal edifeirwch.

Ail gynneddf, neu effaith edifeirwch yw ymddeffyn ein hunain, hynny yw, ein rhyddhau,

hau, neu ein diheuro ein hunain pan in cyhudder gan bechod, ac y rhodder dim i'n herbyn: Canys pan fyddo pechod a'r Cythraul yn cythryblu cydwybod y pechadur edifarus truan, yn ddiaros efe a rêd at Dduw, ac a ymbil am faddeuant trwy Jesu Grist, ac felly ai hymddeffyn ei hûn, ac â lwna ei achwyn ar bechod â Sathan: megis dyn â ddyfynner i'r Seneddr am ddineb, neu fai sceler arall, rhaid iddo drwy dyfiolaeth ymddiheuro oddiwrth y peth â heurer arno: Felly y gydwybod â ddyfynno fathan o flaen cyfiawnder a brawdle Duw ai hymddeffyn ei hûn trwy edifeirwch, ac â ofyn faddeuant drwy Jesu Grist.

Felly ymma y gallwn weled y lleſâd rhagorol, ar budd a ddûg cydwybod edifarus: Ni allhi oddef adael i bechod fod yn achwyn arni, ni fedr ymlonyddu nes cael ei chymmod â Duw, a heddwch gartref ynddi ei hûn: Dblegid hyn fydd i ddal fulw arno yn y dŷn duwiol, pan wnelo eferyw bechod, a bod ei gydwybod yn dwyn ar gôf iddo hynny, yn y man efe a glyw bwys yn ei waſeu oddi fewn, ac yn ei wneuthur cyn drymmed â phlwm, fel na ddichon gyſcu yn eſmwyth, hyd oni chaffo fyned i ryw gilfach i alaru, ac i gwynfan ei wala, i gyffeſſu, ac i ymwneuthur â Duw, ac felly ei ymddeffyn ei hûn

drwy

drwy Jesu Grist, ai gydwybod yn tystiolaethu iddo, fod ei bechod wedi ei faddeu. Ond yn y gwrthwyneb, y dŷn annuwiol pan gyhuddo ei gydwybod ef am bechod, a drŷ ymmaith bob cyfryw syn-feddyliau, ac ai dyry tan ei droed: ac â eilw am bâr o gardiau, neu dabler, neu ryw gydymmaith digrif i fwrw yr amser heibio, ac i yrru y fâth feddyliau allan o'i ben: Ac felly mewn gwirionedd, peri â wna iddynt gynnyddu fwyfwy, a chrawni oddifewn.

Y drydedd rinwedd yw digofaint, nid amgen, dygn gasineb yn erbyn pechod, megis pan fo dŷn yn crynu, ac yn achrethu, ac megis yn gwascu ei ddannedd wrth gofio ei bechodau.

Canys y mae y gamp hon bob amser ar y dŷn edifarus, nid amgen, gwrthwynebu, a ffieiddio oi galon bob pechod, yn gystal ei bechodau ei hûn, a phechodau rhai eraill, a'u casau fel Diafol ei hûn, yr hwn yw yr awdur o honaw, ac ymogelyd rhagddo megis rhag tor gêg, a dihenyddwr ei enaid, ac adnabod mai pechod yw'r vnig beth sydd yn dallu, ac yn caledu, sy'n gwahanu oddiwrth Dduw, ac yn dwyn arnom bôb dialedd, ac afiechyd yn y corph a'r enaid. Ac am hynny ei ddiystyru ymae, ai ddirmygu, ai ffieiddio pa le bynnag y gwypo oddi wrtho.

Y pedwerydd peth yw ofn, yr hwn yw mâth ac dychryn pan fydd dyn yn arfwydo anfodloni Duw: Canys ymae y dyn edifarus yn ofni beunydd, ac oblegit ei fod yn adnabod ei lefcedd, ai wendid ei hûn (pan dynno Duw ei râs oddiwrtho, ac y gadawo ef arno ei hûn) gweithio allan awna efe ei iechydwriaeth drwy ofn adychryn. Ni ryfyga efe ar rás or blaen, i wneuthur dim pechod, ac ni bydd efe ry hŷ o drugaredd Duw, ac or pethau â dderbynniodd enfys gan Dduw, i ymroi i rŷw bechod bychan, gan dybied y gall efe hynny, a bod yn blentyn i Dduw gyflal cynt; oblegit fyrthio rhai o blant Duw i bechodau mwy: Dnd ymae efe yn hyttrach yn dychrynu rhag y cynniwrf lleiafo bechod: ac yn ofni y maglau â ofodo Satan ar y ffordd, a phrofedigaethau pechod, pan ofodant arno i dorri gwangc pechod: Eithr ymdrechu â wna efe yn erbyn pechod, pan ymdrecho pechod yn ei erbyn yntau: ac â efyd ofn Duw o flaen ei lygaid (fel y gwnaeth Ioseph Dduwiol pan cuthrodd gwraig Putiphar arno) i fod yn dŵr ymddeffyn, ac yn ffynnon bywyd i ddiangc rhag maglau angau.

Y pummed yw chwant, hynny yw newynu, a fychedu yn ôl cyfiawnder. Canys y mae y dŷn edifeiriol yn chwannog i bethau daionus:

daionus: chwenychu ymae fod yn wellwell bob dydd: Chwenychu ymae ymadael â rhyw bechod bob dydd: ewyllysio ymae gael rhyw wybodaeth o newydd, rhyw ddeall o newydd ar bethau Nefol.

Awyddus ydyw i wrando Pregethau, ac ese â wna egni mawr iw gwrando: Dymuno ymae gymdeithas y Duwiol, a thybied ei fod yn y nef pan fyddo yn eu plith hwynt, Dymuno y mae iechydwriaeth ei elynion a gweddio trostynt. Y deisyfiadau hyn oll, a llawer eraill or cyffelyb ydynt yn y dŷn edifeiriol.

* Gwynfydiad.

Y chweched rinwedd yw * zêl, yr hon fydd yn fefyll yn hyn, fef mawrhau duwioldeb, a chafau dyfygioni; yn gymmaint a bod y dyn edifarus yn awyddus i bob peth da, yn awyddus i ofod allan ogoniant Duw ymmhôb lle, ymmhôb cymdeithas, ac ymmhlith pôb mâth ar ddyn. Ni ddichon oddef hybu dim ar anrhydedd Duw, na chlywed cablu ei enw, na diyfyru ei ogoniant: Ond ese â egyr ei enau i argyoeddi yr annuwiol, ac a faif yn wrol-wŷch yngwheryl gogoniant Duw.

Nid yw ese debyg ir Di-ddnw, ar rhagreithwyr, y rhai â ymrônt i wneuthur fely gwnelo y cymdeithion, nid amgen, yn Nouwiol ym mlith Duwiol, Protestwyr ym

ym mhlith Protest-wyr, a dyrygionus ym mhlith dyrygionus, Papistiaid ym mysc Papistiaid, a bydolion yn mysc pobl fydol, Tyngwyr ym mhlith tyngwyr, ac anwadalwyr yn troi gyd â phôb awel. Y dŷn edifeiriol (meddaf) nid y fâth dŷn â hwn ydyw. Ond y mae efe yn ddianwadal, ac yn ddwyfol ym mhôb peth da: Y mae efe yn gefnog yn erbyn pôb digrifwch, â budd pechadurus: Pe rhôn â gallu o honaw ynnill y byd ei gyd, neu wellhau arno ei hûn fwy nag a goelieí neb dŷwy wneuthur pechod yn erbyn Duw, etto fe ai gwrthodai: Canys fe a ddyscodd o enau Crist na leſâ i ddyn er ynnill yr holl fyd, a cholli ei enaid.

Y peth olaf yw dial: hynny yw, y dyn edifarus fydd mor anfodlon ir pechod â wnaeth efe, ac y myn gymmeryd dial arno ei hûn am danno. I yſpyſu hyn, os pechodd dŷwy lothineb, efe a ddial arno ei hûm dŷwy ymprydio ddeu ddydd, neu dri yn ôl hynny; os troſeddodd trwy odineb, efe â ddial ar ei drachwantau dŷwy eu llyſſetheiria a'u ffrwyno byth yn ôl hynny: Os gwnaeth gamwedd, dŷwy dalu adref, fel y gwnaeth y glôr Duwiol, a gwir edifarus Zacceus. A hyn yn ddiau yw ffrwyth edifeirwch dilediith ſef diwygio ynom ein hunain y pethau â wnaethom ar fai.

Yn awr gan hynny fy mrodyr annwyl, nyni â welwn beth ſydd yngheudod edifeirwch, a pha fâth ymyſcaroedd ſydd yno oddifewn, ac bellach rhaid yw i ni doyfod i ddattod, ac agoryd geiriau Criſt: oddieithr edifarhau o honoch, chwi a gollir oll: hynny yw oni bydd gennych y gofal â gryfhwyllwyd or blaen chwi â fyddwch colledig oll, oni bydd gennych yr ymddeffyn hwn chwi â gollir: Oni bydd gennych y digoſaint hwn, chwi a gollir: oddieithr bod gennych yr ofn hwn, colledig fyddwch: Oddieithr bod ynoch yr awydd hwn chwi â gollir oll: oddieithr bod gennych y chwant ymma, damnedig fyddwch: ac oni bydd gennych y dial hwn, chwi oll a gollir.

Oblegid nid yw ein Iachawdwr Criſt yn dywedyd am enw edifeirwch yn unig, ond am edifeirwch â chwbl o'i pheiriannau, a'i pherthynaſau; yn gymmaint ac pwy bynnag nid oes ganddo edifeirwch yn gwbl-gyfan, ai holl gynneddfau, ai effeithiau, neu or hyn lleiaf ryw feſur o honynt, nid oes ganddo ddim gwir edifeirwch ac am hynny colledig fydd: oblegid oddieithr edifarhau o honoch, chwi â gollir oll.

Eithr mi â dybygwn fy môd yn clywed rhyw yn yn dywedyd: Nid oes ymma ddim ond damnedigaeth, damnedigaeth;

nid

Nid ydych yn Pregethu dim ond y gyfraith, moeſwch i ni glywed yr Efengyl. Fy mrodyr mi â dyngaf i chwi fy môd yn dywedyd mewn cariad beth bynnag yr wyf yn ei ddywedyd, dymuno yr wyf iachawdwriaeth pawb o honoch. Pe gallwn ynnill dau yn unig oz holl gynnulleidfa hon, mi am cyfrifwn yn ddedwydd, ac â dybygwn roddi o Ddduw kenditk enwedigol ar fy llafurwaith.

Ac yn ddiammeu pe gwyppwn yn ffozdd arall â fai nês, a chymmwyſach i'ch dwyn chwi at Dduw na phregethu y gyfraith, er mwyn peri i chwi eich adnabod eich hunain dian, dian y dilynwn honno neu pe gellid peri i mi gaelio mai gwell fyddei ar eich llês chwi glywed Pregethu yr Efengyl, a thrugaredd, ni chaech glywed gennif ddim amgen ond yr Efengyl yr Efengyl, trugaredd trugaredd.

Eithz fywaeth gweled yr wyf fod pôb dyn difraw, ac annwybodus yn rhyfygu ar drugaredd Dduw: gweled yr wyf fod pôb annuwiol-ddyn allan, a chabl-wz dyhzyd yn camarfer trugaredd Dduw drwy ei chymhwyſo iddo ei hûn heb edifeirwch, ac felly y mynnent wneuthur trugaredd Dduw yn gochl tros eu pechodau: gweled yr wyf y chwenychei pob dyn gael ei lochi, a gwenhieithio

iddo yn ei berchod, ac na chlywei sôn am dano mwyach, ond cael Pregethu yr Efengyl: Yr hyn beth mewn gwirionedd ni pherthyn ir sawl a bathânt yn eu cyndyn-rhwydd, ond yn unig ir pechadur edifarus â yn wrthodo ag ef ei hûn, ac â fyddo yn griddfan, ac yn ymofidio tan faich ei bechod.

O herwydd paham pan i'ch gwelwyf wedi eich darostwng â chydwybod eich pechodau, ac yn ochneidio, ac yn cwynfan tan ei baich: Pan welwyf eich wynebau yn sothachlydgan wlofain, a'ch calonnau yn meddalhâu, ac yn tyderu gan ofal: Yna y cyflwyaf chwi, ac y peidiaf â Phregethu'r gyfraith.

Eithr, attolwg i chwi, â ledrettwch chwi, â leddwch, â odinebwch, ac er hyn â fynnwch glywed am drugaredd? A watwarwch, a dyngwch a gebliwch, a ddifenwch, ac er hyn clyw ed am drugaredd? A wasanaethwch eich wi bechod, â gasewch rinwedd dda, a ddilynwch eich trachwantau eich hunain, ac er hyn clywed am drugaredd?

A fynnwch gael eli cyn bod arnoch friwiau, a meddiginiaeth cyn eich bod yn glâf? A fynnech ollwng gwaed arnoch, cyn bod yn thaid? Oni chymmerech chwi ef yn fe-

ddig

ddig ffôl a roddei feddiginiaeth i ddyn iâch? ac yn anghyfarwydd yn ei gelfyddyd â glodei wrth hên ddolur crawnllyd eli tûf tŷner, ac nid eli-fugno i fwytta'r marw? Pa gwybyddolwch fy mrodyr, fod yn rhaid i chwi wrth gyfog cadarn-gryf, o herwydd eich bod yn llawn affachusrwydd: am eich bod yn llawn o hên ddoluriau crawnllyd rhaid ich i wrth eli llym dôft; canys hynny fydd oreu ar eich llês, at modd neffaf i ddwyn i chwi iechyd.

Oblegid eich bod fel meirch anyftowallt ymae yn rhaid cael marchogwr garw: ac i hollti coed ceingciog, gorau peth yw cynion gweithgar, a gordd drom iw curo. Pregethu y gyfraith yr ydym i'ch gyrru chwi at Grift, Pregethu barnedigaeth, i beri i chwi geifio trugaredd, pregethu damnedigaeth i'ch dwyn i iachawdwriaeth. Ond pregethu trugaredd, â maddeuaint cyn gwcled o ddynion eu pechodau, neu adnabod eu trueni trwy bregethiad y gyfraith, hynny fyddei pregethu yr Efengyl yn anfuddiol. Canys yr hwn ni'wypo y gyfraith, nid edrych chwaith pa drueni fydd yndo ei hûn, na pha drugaredd yn Nuw.

Pa dâd, o bydd ei blentyn yn fachgen yftyfnig ac anufydd iddo ym mhôb peth â archo, a lyfna ei ben ef, ac â ddywed mai bachgen da

ydyw? ac yn hyttrach nis cerydda efyn dôst, ac nis cûr â gwialen? pa feistr â genmyl ei wenidog am wneuthur yr hyn a fynno ei hûn, ac nid yr hyn â orchymynno efe iddo? yr vn-ffunyd ni wasanaetha i ni anvfyddhau â gwneuthur drwg, a disgwyl ein mawrhau hefyd, ac nid ein ceryddu. Gwybyddwn gan hynny er bod Duw yn arfer o ferio, a thorri doluriau crawnllyd, a rhoddi eli sugno tôst i yssu y marw, a chwilio escyrn tynnion, ar cyffelyb foddion tôst ar feddiginiaeth: er hynny i'n iachau ni y gwna efe y cwbl. Ac heb law hyn gwybyddwn etto ym mhellach, oblegit nad oes dim moddion amgen i'n tynnu ni i iechydwriaeth ond trwy lânhau ein holl feiau aflan, ar glânhâd hwnnw ni ellir ei wneuthur ond wrth ein trîn yn arw, pan i'n rhybuddier drwy athrawiaeth y gyfraith neu bod ein cydwybodau ein hunain i'n cyhuddo; er bod yn wŷch gennym gael bod yn esmwyth wrthym, ac megis ein penllyfnu trwy dêg: etto bydded dewisach gennym gael dywedyd wrthym y caswir yn haccrach, gâel dangos i ni ein beiau, a pheri i ni gywilyddio am danynt, a chael datcuddio ein hanwedd-eidd-dra, ac nid chwenych ein bodloni: Canys hynny fyddei y ffordd nessaf i beri i ni bydru yn ein brynti os cadwem ef yn gyfrinachol; a rhy ddrud fyddei i ni adael ein

siommi

ſiommi drwy weniaith dynion os y barnwr Nefol a dywalltei ei lîd arnom.

O herwydd hyn pan ddelo neb i wrandu Pregeth, gwneled ei gyfrif yn gyntaf peth o gael clywed ei argyoeddi, megis y gweddei, ac yſtyried mai ei leſâd ef yw, nad ydys yn teccau iddo: ond o bydd ei gluſtiau yn merwino, ac yntau yn anfodlon ir peth a glywo, byth ni wrendu efe i gael lleſâd, ac addyſc oddiwrth yr athrawiaeth a dreuther. Ymfodloned i adael teimlo, a thrîn ei ddolur, fel y galler ei iachau.

O chais neb fodloni dŷn clâf am bob peth â alwo am dano, pa beth â ddaw o honaw? A rŷdd efe iddo ddiod ar bob tro? A ddyry efe wîn iddo pan ddylei roddi dwfr? A rŷdd efe iddo ardd-lyſiau? dyna'r ffordd neſſaf iw wenwyno ef. I fyrhau i chwi, diammeu ydyw fod dŷn yn ceiſio ei farwolaeth ei hûn pan chwennychei gael gwenhieithio iddo. Eithr pa vn oreu, ai ymroi or hwn ſydd yn trîn dyn clâf i wneuthur ei ddamuniad ef, ai ei attal, er ei fod yn brochi, ac yn gwaſcu ei ddannedd am na chaiff ei ewyllys yn yr hyn a fynnei. Chwi â welwch wrth hyn mor enbyd yw gorllyfnu dynion, a pheri iddynt ymgodi, ac ymſiongci, drwy Bregethu trugaredd cyn eu taflu i lawr a merwindod barn Duw.

Peidiwch gan hynny ag agoryd eich safnau i floeddio, a llefain tros y wlâd gan dywedyd: Mi dynt yn Pregethu dim ond y gyfraith, y gyfraith, colledigaeth, colledigaeth oddi eithr i chwi gymmeryd i mewn Crist hefyd, a'i wneuthur ef yn yn orchiefdi, ai gyhuddo ef am ddiffyg doethineb pan yw yn Pregethu, ac yn dywedyd, pwy bynnag nid edifarhao â gondemnir.

Myfi o'm rhan fy hûn wyf yn Pregethu'r Efengyl ir rhai y perthyn yr Efengyl, a'r gyfraith i'r fawl y perthyn y gyfraith, a barn ir fawl y perthyn barn. Ac am hynny tewch â sôn, a bydwch fodlon i'ch rheoli gan ddoethineb Duw.

Eithr bellach moeswch fyned rhagom at y frydydd peth cyffredin, pr hwn yw yr amser pa bryd yr edifarhawn. Yr Yspryd Glân yn yr Scrythyrau sydd yn pennu yr amser y'n hennol, ac a'n cynghora i gymmeryd hwnnw yn amser ein edifeirwch. Am hynny yn awr medd yr Arglwydd, Dychwelwch attaf fi a'ch hôll galon, mewn ympryd, wylofain a galar.

Hebr 3.

Felly at yr Hebreaid. Cynghorwch ei gilydd tra y gelwir hi heddyw, rhag caledu neb o honoch drwy dwyll pechod. Ac yn yr unrhyw bennod: Heddyw o gwrandewch ar ei

Ioel 2.12

leferydd

leſerydd ef na chaledwch eich calonnau megis yn nydd profedigaeth: Felly yn awr, ie yn awr pw'r amſer i edifarhau. Yn awr tra yw yn gaiw, yn awr tra yw yn dywedyd, yn awr tra yw yn curo: Pr awr'hon gan hynny gwrandawn, pr awr'hon gan hynny vfyddhawn, pr awr'hon gan hynny adbrynwn pr amſer ſef y dydd heddyw, y rhai â oedialom gynnifer o ddyddiau, y rhai cyhyd o amſer a galedaſom ein calonnau, y rhai â ollyngaſom heibio gymmaint o bethau da i redeg troſodd ac i golli hefyd, cymmerwn y dydd hwn, a gwnawn ef yn ddydd ein hedifeirwch. Er na chynnyrfwyd ni â Phregeth erioed hyd yn hyn, etto cynhyrfer ni yn awr vnwaith ar y diwedd. Dywedwn pr awr'hon y dydd hwn a gaiff fod yn ddydd edifeirwch i mi: Ni cheiſiaf oedi ym mhellach, ond yn awr y dychwelaf at Dduw, ac yr ymwrthodaf am holl bên ffyrdd drygionus, ac am dychymmygion fy hûn. Yr awr'hon y newidiaf helynt fy muchedd, ac y dechrenaf o newydd. Mi a fynnaf fod yn gyonabyddus â gair Duw: Ac a ymgynghoraf ag ef pa beth a wnelwyf, a pha fodd y dylwn ymddwyn ym mhôb gweithred.

Myfi â ddilwygiaf, nid fy hûn yn vnig, eithr hefyd fy hôll deulu, am gwraig, am plant, am gwaſanaeth-ddynion yn ôl y gair.

Wal

Wal hyn fy mrodyr annwyl attolwg i chwi, fwriadu yn eich calonnau, ac nac oedwch yn hwy: na fyddwch gyffelyb i loddest-wyr yn oedi gwellhau gan ddywedyd: Ieuengtid a fyn fod yn nwyfus, ac ieuengtid â fyn ei heipynt ai rwyfe, a pha raid bod mor ddoniol yn ieuainge: Digon yw bn ochenaid wrth farw, byddwn lawen yr awr'hon, ni byddwn byth mwyach ieuengach nag ydym, ni â gymmerwn edifeirwch pan elom yn hên.

Megis (ach y dywein) pe bai ganddynt edifeirwch ynghadw yn eu llewis, ac wrth eu gorchymyn, ac y medrent edifarhau pan fynnent. Na fedrant ddim: fe gaiff y cyfeillion hyn dalu yn hâllt am eu rhyfig: Oblegid Duw ai rhydd hwynt i fynu i galedwch calon, a diedifeirwch, o herwydd eu bod mor hyderus, a chymmeryd oed cyhyd o amser fel y gallent yn y cyfamser fwynhau budd, a meluſwedd pechod.

Am hynny (garedigion frodyr) nac oedwn o ddydd i ddydd, ond ceiſiwn yr Arglwydd yr awrhon tra y caffer ef, a gallwn arno tra fyddo yn agos attom, cymmerwn amser tra caffom yr amser, canys amser, a llaniw nid erys neb. Cydnabyddwn mai hwn yw amser ein ymweliad.

Ein Achubwr Criſt â wylodd tros Ieruſalem, am nad adwaenei amser ei hymwe-

liad

liad. Argyoeddi yr Iuddewon y mae efe o herwydd y medzent ddirnad wynepzyd yr awyr, ond ni fedzent ddirnad arwyddion yr amserau. A diau y try hyn yn y diwedd iw destryw hwynt, oni chydnabyddant mai hwn yw dydd y trugaredd, ac amser grâs pan yw Duw yn estyn allan ei law tu ag attynt, a doethineb yn llefain yn eu heolydd. Yn awz gan hynny tra cassom oleuni rhodiwn fel plant y goleuni: Y nôs sydd yn dyfod pzŷd na all neb weithio: Rhy hwyr yw galw am drugaredd yn ôl y bywyd ymma, pan gauer pyrth trugaredd, ac y byddo rhyhwyr edifarhau.

Oh Gristianogion annwyl, cofiwn y pum gwerskon angall y rhai o herwydd iddynt oedi yr amser yn rhyhir, fe gaewyd pyrth y Nefoedd iw herbyn. Cofiwn hefyd ofnadwy, a gresynol esampl y gwŷth goludog, yr hwn pan yddodd yn yffern mewn poenau oedd yn llefegoz, ac yn ymbilam yr esmwythyd, ac cyssur lleiaf â allai fod, ac etto ni fedzei gael hynny.

Can-gwell i ni gan hynny ymadael an pechodau yr awz'hon; trissau am danynt yr awz'hon, ac edifarhau yr awz'hon, nag yn ôl hyn pzŷd sywaeth y bydd rhyhwyr: gwell o lawer cymmeryd peth poen yr awz'hon, dzwy ymozchestu i ymadael a'n pechodau, a

pheri

pheri i'n calonnau ymofidio troſſynt, na'n condemnio yn dragwyddol, a gweiddi yngwaelod bffern.

Nyni a gyfeiliornaſom o ffordd y gwirionedd, ac ni thywynnod llewyrch cyſiawnder arnom ni, ac ni chododd haul cyfiawnder arnom ni: nyni â lanwyd o ffyrdd anwiredd a deſtruw ac â rodiaſom trwy anialwch anhyffordd, eithr nid adnabuom ni ffordd yr Arglwydd. Pa fudd ſydd i ni o falchder? A pha lês â wnaeth golud, a ffroſt i ni? Y pethau hyn, &c. Am hynny cydnabyddwn amſer ein galwad, ac na fyddwn wacth nac ehediaid yr awyr: Y golommen, ar garan, ar wennol a adwaenant amſer eu dyfodiad: Ỳ llafurwr â gymmer ei amſer: ar morwr a deiſgwyl am y llanw, moeſwch i uinnau hefyd gymmeryd yr amſer, a dychwelyd at yr Arglwydd tra y dywedir heddyw. Yr hwn râd, Duw ai canniadhâ i ni. Deuwn bellach at y pedwerydd pwngc ynghylch yr achoſion á allent ein cymmell ni i edifarhau. Ac yn hyn mi â nodais naw o bethau enwedigol.

Yn gyntaf, Dirfawr drugaredd Dduw yn ein tywys ni i edifeirwch; daioni Duw yn arwain i ediferwch, medd yr Apoſtol. Ymae Duw beunydd yn ein dilyn ni ai drugareddau, ac ai gymmwynaſau tu ag at ein eneidiau, a'n cyrph nid oes gennym ddim ar nas

nas derbynniasom ganddo ef. Oddiwrtho ef yr ydym yn dal y cwbl ôll ar a feddwn : ac iddo ei yr ydym yn rhwymedig am y cwbl ôll: mawr yw ei drugaredd ef tu ag at ein cyrph, a phôb trugaredd, a chymmwynas tu ag yr enaid, neu'r corph sydd yn ein galw, a'n gwahodd, a'n cymmell ni i edifeirwch. Efe sy yn rhoddi i ni swyd, a diod, a dillad; y pethau hyn sydd yn ein galw ni i edifeirwch. Efe a'n ceidw ni ar ei gôst, ai draul ei hûn ymma ar y ddaiar, hyn a'n geilw i edifeirwch: yr haul, y lloer, ar sêr a'n geilw ni i edifeirwch : Adar yr awyr, pŷsc y môr a ffrwythau y ddaiar sy yn llefain arnom yn vchel, ac yn llafar, edifarhewch, edifarhewch.

Yr hôll greaduriaid sy'n ein cymmell ni i edifarhau : Y mae ein creadwriaeth yn galw arnom, ein prynedigaeth yn llefain, ein sancteiddiad yn curo, a'n etholedigaeth yn ein cynnyrfu i edifeirwch : beth â allai Dduw wneuthur dros ei winllan ychwaneg nac awnaeth? o herwydd hyn edifarhawn.

Yn ail barnedigaethau Duw sy yn ein cymmell i edifeirwch : Canys yr holl fygythion, ar plâau, ar cospedigaethau â dywalltodd Duw crioed ar bechaduriaid anhydyn o ddechreuad y byd, ydynt gynnifer rhybuddion neillduol i'n deffroi o

drymgwsc

drymgwsc pechod, ac i'n swmbylio i edifarhau.

Megis pan goffausei yr Apostol amryw farnedigaethau Duw yn erbyn yr hên Israeliaid am amryw bechodau, penderfynu ymae fel hyn. Yr hôll bethau hyn â ddigwyddafant yn esampl iddynt hwy, ac â scrifenwyd yn rhybudd i ninnau ar ba rai y daeth diwedd y byd. Ac felly yr holl gospedigaethau yr ydym yn darllain am danynt yn yr Scrythyrau, ydynt gynnifer rhybudd enwedigol, ac megis rhaffau men i'n tynnu i edifeirwch.

1 Cor. 10.

Yr holl ddialeddau yr ydym yn darllain am danynt, neu yn eu gweled, neu yn clywed o honynt bob dydd, ydynt yn curo a dyrnodiau trymmion, ac yn taro hyd lawr ar ein cydwybodau i'n dwyn ni i edifarhau. Yr anghenfilod anferth-lûn, yr awyr-ddreigiau tanllydd, y sêr llosgyrnog y marwolaethau dysyfyd, y brwdaniaeth angerddol, yr ira rhyfedd-fawr, y llif-ddyfroedd ofnadwy, y rhyfeddodau pellennig: Yr ymrithiadau dieithrol, y bygythiadau yn y Nefoedd oddiarnodd gan fflammau tân yn ymgyrchu, ddaiar-gryn fâu tan ein traed, a'n tai goruwch ein pennau, fel y gwelsom yn ddiweddar: Pa beth yw y rhai hyn ôll ond megis bachau gorchest, trawstiau, a rhaffau

au i'n tynnu, at yr Arglwydd dŵy ediſeirwch?

Yn dŷdydd y mae gair Duw yn ein hwylio i ediſeirwch: Canys megis yn yr amſer gynt y danfonodd Duw ei brophwyd yn foreu, ac yn hwyr i alw yr Inddewon gwrthrychiolgar i ediſeirwch, felly y mae efe yn y dyddiau hyn yn anfon y Pregethwŷr, ar cennadon i ganu btcorn ei air, ac i beri i bereidd-glŷch Aaron ſeinio yn eu plith, iw defroi hwynt i ediſeirwch: Eithr ſywaeth leied cyfrif â wneir o honynt? Pwy â wrendu ar eu llais? Ond diau mai dymma yr ymwared diweddaf â oſododd Duw, ac oni chynnyrfa hwn ni i ediſarhau, os hwn nis iachâ ni, yna yr ydym yn llwyr efrydion.

Yn bedwerydd yr anfeidrol nifer o bechodau a wnaethom, a ddylei fod yn gynnifer ſwmbylau yn ein yſtlyſau i'n cymmell i ediſarhau. Digon yw medd (St. Petr) dreulio o honom yr amſer a aeth heibio yn ôl trachwantau y cenhedloedd, gan rodio mewn gwŷn trachwant, meddwdod, glothineb, ymyfed a phôb ffiaidd eulyn-addoliad.

Am hynny madws yw weithian ediſarhau. Oh na throe pobl yn ôl i edrych arnynt eu hunain, fel yr oeddynt hwy ddeugain, neu ddêg ar hugain, neu bgain, neu ddêg mhlynedd ir awr hon.

Oh

nant Dduw, ac nid vfyddhânt i Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Mi â welais (medd St. *Ioan*) Orfeddfa wen fawr, ac vn yn eistedd arni, o ŵydd yr hwn y ffôdd y ddaiar, ar Nefoedd a'u lle ni chafwyd mwy. Ac mi a welais y meirw, mawrion a bychain yn sefyll o flaen Duw, a'r llyfrau â agorwyd, a llyfr arall â agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd, a'r meirw a farnwyd am y pethau oedd scrifennedig yn y llyfrau, yn ôl eu gweithredoedd, ar môr a roddes, &c.

Nyni â welwn yn y lleoedd ymma mor ddisymmwth, mor ofnadwy, ac mor ogoneddus fydd dyfodiad Crist. Oblegid ni ddaw efe yn dlawd, ac yn ddirmygus megis yn ei ddyfodiad cyntaf, eithr efe a ddaw yn frenhinawl, yn Ardderchawg ac yn orfolaethus, er dychryn mawr iw elynion pan fo tân yssol yn myned oi flaen ef, a myrdd fyrddiwn o Angelion yn ei wasanaethu; pan syddo Brenhinoedd y ddaiar, ar pendefigion, ar cyfoethogion, ar Pen-capteniaid, a'r cedyrn, a'r caethion, a'r rhyddion yn ymguddio mewn llochesau, ac ym mŷsc creigiau y mynyddoedd, ac yn dywedyd wrth y creigiau a'r mynyddoedd syrthiwch arnom, a chuddiwch ni o ŵydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfa, a rhag llid yr oen: canys dydd mawr ei lid efa ddaeth, a phwy a ddichon sefyll. Am hynny edifarhawn.

Y peth olaf yw poenau vffern, na'r rhain

nid

nid oes dim mor annioddefadwy. Am hynny y dywed Crist, Os bydd dy law i'th rwystro torr hi ymmaith; gwell i ti fyned i fywyd yn vn llawiog, nac a chennit ddwy law fyned i vffern, ir tân anniffoddadwy, lle ni bydd marw y prŷf, ac ni ddiffodd y tân. Ofnadwy i'n synhwyrau ni y mae'r Scrythyrau yn llefaru am gyflwr y rhai colledig, gan ei gyfenwi yn dân vffern, yn ddammedigaeth, yn bwll yn llosci o dân o brwmstan yn dragywydd. Ym Mhrophwydoliaeth Esay: y gelwir eu cyflwr hwy, Tophet wedi ei pharatoi er doe, ai phoratoi i'r Brenin, efe ai dyfnhaodd yn ehang, ei llosciad yw tân a choed lawer, ac anadl yr Arglwydd megis afon o frwmstan yn ei hennyn. Yr ymadroddion hyn ydynt ofnadwy ynddynt eu hunain, ac yn peri i ninnau synnu yn aruthr.

Eithr pe rhôn â bod gennif dafodau cant o wŷr, nagê cant o Angelion, er hynny ni allwn eu hadrodd, fel y caiff rhai (ryw ddydd) eu dioddef, chwaethach gallu o honoch chwi eu dirnad hwynt. Pe bai yr holl arteithiau, ar poenedigaethau creulonaf â allei synwyr dyn eu dychymmig, wedi eu gosod ar ryw vn dyn, etto nid yw hynny ddim wrth boenau vffern. Nyni drucin â dybygwn nad oes dim poen iw gyffelybu ir tostedd, neu grŷd angerddol: ond pe bai bossibl i bôb mâth ar dostedd, pôb rhyw grŷd, a phôb mâth ar glefydau dieithr allu dysod, a tharo ar vn dyn, ni byddei y cwbl yng-

Dh na chofient eu pechodau cyhceddus, à dirgel, ac mi â dybygwn y dylei meddwl am danynt, a chofio o honynt beri iw calonnau enwaedu yn eu cyrph: ô nad ystyrient pa faint o amser â dreuliasant yn ofer, a pha faint o bethau datonus a ddarfu iddynt eu hesceuluso, a'u gadael heb wneuthur. Yn bummed, byrder ein henioes sy'n galw arnom yn daer am edifarhau. Trwyddedein henioes ni yw têg mlynedd a thrugain, ac os cyrhaeddwn bedwar ugain n lynedd, yna nid yw ein cryfder ond poen a llinder, canys buan y darfyddwn, ac yr ehedwn ymmaith, medd y Prophwyd Dafydd; Ni â dreuliasom ein blynyddoedd megis meddwl, am hynny y dywed: Dysc i ni felly gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calon i ddoethineb. Ein henioes o herwydd ei byrred, a'i hanfeccred a gyffelybir yn yr Scrythyrau i laswellt, i darth, i ffŵg, i wennol gwehydd yr hon â rêd ymmaith yn gyflym. Felly y mae dyddiau dynion yn mynedheibio ni wŷr vndyn pa fodd. Dyn fydd a byrr amser iddo i fyw (medd Iob) ac yn llawn trueni. Yr y'm yn gweled beunydd wrth brawf, mai heddyw yn heiw-dyn, ac yfory yn adyn. Ymmaith oddi ymma y mae yn rhaid i bawb fyned, pa cyn gynted nis gŵyr neb. Ond nid oes ymma le i hir drigo. Am hynny edifarhawn.

Yn chweched, Leied y nifer â fydd cadwedig

dig â ddylei eingwthio ni i geisio tynnu ym mlaen i edifarhau. Ymdrechwch i fyned i mewn i'r porth cyfyng: Canys llawer, meddaf i chwi a geisiant fyned i mewn ac nis gallant, medd Crist. Ac mewn man arall y dywed. Cûl yw'r porth a chyfyng yw'r ffordd sydd yn arwain i fywyd, ac y chydig ydynt yn ei gael. Pe bai dynion yn ystyried hyn, fe wnai iddynt edrych yn well o'u hamgylch a'u prost eu hunain â ydynt hwy or rhifedi bpchan hwnnw, ai nad ydynt. Yn seithfed, Y mae angeu yn ein bygwth, yr hwn sydd ofnadwy i'r cnawd, a meddwl am farw sydd chwerw iawn i ddyn a fai wedi ymroi i felnswedd y byd: Ni wenhieithia angeu i neb, ni pharcha vndyn ni wna gyscif o gyfeillach vn-gwôr: Nid oes ganddo brîs am wobrau, y mae yn gethin iawn, yn anferth, yn greulon, ac yn llâdd yn farw lle y tarawo: Am hynny edifarhawn.

Yn wŷthfed, dydd y farn, ac ail ymddangosiad mâb y dŷn â ddaw fel lleidr y nôs; yn yr hwn y nefoedd â ânt heibio mewn trwôst, ar defnyddiau â doddant gan wrês, ar ddaiar, ar gwaith sydd arni a loscir. Am hynny gan orfod ir pethau hyn fod felly pa fâth ddynion â ddylem ni fod mewn ymarweddiad sanctaidd, a duwioldeb. Yr Arglwydd Iesu â ymddengys or Nefoedd mewn tân fflamllyd, ai Angelion nerthol gyd ag ef, i roddi dial ar y sawl nid adwaenant

nant Dduw, ac nid vfyddhânt i Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Mi â welais (medd St. *Ioan*) Orfeddfa wen fawr, ac vn yn eistedd arni, o ŵydd yr hwn y ffôdd y ddaiar, ar Nefoedd a'u lle ni chafwyd mwy. Ac mi a welais y meirw, mawrion a bychain yn sefyll o flaen Duw, a'r llyfrau â agorwyd, a llyfr arall â agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd, a'r meirw a farnwyd am y pethau oedd scrifennedig yn y llyfrau, yn ôl eu gweithredoedd, ar môr a roddes, &c.

Nyni â welwn yn y lleoedd ymma moy ddisymmwth, moy ofnadwy, ac moy ogoneddus fydd dyfodiad Crist. Dblegid ni ddaw efe yn dlawd, ac yn ddirmygus megis yn ei ddyfodiad cyntaf, eithr efe a ddaw yn frenhinawl, yn Arddercbawg ac yn ofnolaethus, er dychryn mawr iw elynion pan fo tân yllol yn myned o flaen ef, a myrdd fyrdditwn o Angelion yn ei wasanaethu; pan fyddo Brenhinoedd y ddaiar, ar pendefigion, ar cyfoethogion, ar Pen-capteniaid, a'r cedyrn; a'r caethion, a'r rhyddion yn ymguddio mewn llochesau, ac ym mysc creigiau y mynyddoedd, ac yn dywedyd wrth y creigiau a'r mynyddoedd syrthiwch arnom, a chuddiwch ni o lŵydd yr hwn fydd yn eistedd ar yr orseddfa, a rhag llid yr oen: canys dydd mawr ei llid efa ddaeth, a phwy a ddichon sefyll. Am hynny edifarhawn.

Y peth olaf yw poenau vffern, na'r rhain

nid

nid oes dim mor annioddefadwy. Am hynny y dywed Crist, Os bydd dy law i'th rwystro torr hi ymmaith; gwell i ti fyned i fywyd yn vn llawiog, nac a chennit ddwy law fyned i vffern, ir tân anniffoddadwy, lle ni bydd marw y prŷf, ac ni ddiffodd y tân. Ofnadwy i'n synhwyrau ni y mae'r Scrythyrau yn llefaru am gyflwr y rhai colledig, gan ei gyfenwi yn dân vffern, yn ddamnedigaeth, yn bwll yn llosci o dân o brwmstan yn dragywydd. Ym Mhrophwydoliaeth Esay: y gelwir eu cyflwr hwy, Tophet wedi ei pharatoi er doe, ai phoratoi i'r Brenin, efe ai dyfnhaodd yn ehang, ei llosciad yw tân a choed lawer, ac anadl yr Arglwydd megis afon o frwmstan yn ei hennyn. Yr ymadroddion hyn ydynt ofnadwy ynddynt eu hunain, ac yn peri i ninnau synnu yn aruthr.

Eithr pe rhôn â bod gennif dafodau cant o wŷr, nagê cant o Angelion, er hynny ni allwn eu hadrodd, fel y caiff rhai (ryw ddydd) eu dioddef, chwaethach gallu o honoch chwi eu dirnad hwynt. Pe bai yr holl arteithiau, ar poenedigaethau creulonaf â allei synwyr dyn eu dychymmig, wedi eu gosod ar tyw vn dyn, etto nid yw hynny ddim wrth boenau vffern. Nyni drueiu â dybygwn nad oes dim poen iw gyffelybu ir tostedd, neu grŷd angerddol: ond pe bai bossibl i bôb mâth ar dostedd, pôb rhyw grŷd, a phôb mâth ar glefydau dieithr allu dyfod, a tharo ar vn dyn, ni byddei y cwbl yng-

hyd ond megis pigiad chwanen wrth y boen sydd i ddyfod. Y boen honno sydd ddiddiwedd, ddiseibiant, a diymwared. Dyddiau eu poenau vffernol ni wisc allan byth, ac ni dderfydd eu blynyddoedd, pa hwyaf y parhânt lleiaf fydd eu gobaith, pan elo heibio gynnifer o flynyddoedd ac sy o ddynion yn y byd, a sêr yn y Nefoedd: Pan ddiweddo cynnifer mîl o flynyddoedd, ac sydd o gerrig, a thywod ar lan y môr, er hyn y mae etto ddêg can mîl o weithiau gynnifer a hynny ychwaneg i ddyfod. Y rhai ni chynnyrfir dim arnynt yr awrhon wrth wrando, â gânt eu malurio yn gandryll y prŷd hynny yn dioddef. Yr hôll feddwon, ar tyngwyr, y putteinwyr, ar occrwyr, y breibwyr, ar celwyddog, y gwawdwŷr, ar dirmyg-wyr, y rhai difraw a'r rhysygus, y gloddest-wyr, ar rhuad-wyr, y rhai penhoeden, ar hôll rai anghredadwy am ben hyn, â ddyfynnir, a ddelir, ac â fernir ryw ddydd ger bron gorsedddfaingc Duw, lle y bydd mawrhydi Duw yn sesyll oddi arnynt, ac yn ei law gleddyf noeth o ddialedd, a theyrnwialen cyfiawnder. Diafol, yr hên Sathan a saif ar y naill du iw cyhuddo: ai cydwybodau eu hunain ar y tu arall iw condemnio: A safnrhwth ddiffwys vffern oddi tanodd yn agored iw llyngcu yn dragywydd. Yno y datcenir iw herbyn y farn ofnadwy o felldith, â damnedigaeth tragwyddol, Ewch chwi felligedig i

dân

dân vffern, &c. Yna yr yfant (megis cyfiawn daledigaeth am ei hanwiredd) o gwppan chwerw llid tragwyddol, a digofaint Duw yn nheyrnas y tywyllwch, ac yn ddychrynllyd ŵydd Satan, a hôll felldigedig elynion grâs Duw: Lle y dadseinia bŷth yn eu clustiau alaethus vtcorn digofaint Duw: Lle y bydd byth wylofain a rhingcian dannedd: lle y bydd gwradwydd a gwae, a garlarnad didrangcedig; eu gwewyr fydd cyn dosted, a'u ochneidion cyn ddwysed, a'u gofidiau cyn drymmed hyd oni bônt yn yscyrnygu dannedd fel cŵn yn eu penydiau vffernol, gan vdo, a llefegor; gwae fi, ac ôch finnau erioed fyngeni. Oh na buaswn heb fyngeni, neu nas escorasai fy mam fi yn llyfant: canys felly y buasai well fynhgyfiwr nac y mae: melldigedig oedd yr amser i'm ganwyd ynddo yr awr i'm cenhedlwyd, ar diwrnod y sugnais fronnau fy mam. Melldigedig oeddwn erioed, melldigedig ŵyf, a melldigedig syddaf byth. Gwae fi, gwae fi faint yw fy mhoendod. Pwy ni thoddei ei galon? pwy ni ferwinei ei glustiau? pwy ni chodei ei wâllt yn ei sefyll wrthglywed y pethau hyn? Am hynny, frodyr, aunwyl edifarhawn. Onid all trugaredd Dduw ein denu ni, gedwch iw farnedigaethau ef ein hofni: Onid all ei farnedigaethau ef yn dychrynu, gedwch iw air ein cynnyrfu ni: Onid all ei air ef ein cynnyrfu, gedwch i'n pechodau beri i ni synnu:

Onid all ein pechodau beri i ni fynnu, gedwch i fyrder ein henioes ein lliaſu, onid all byrder ein hiniors ein lliaſu, gedwch ir pchydig rifedi â fydd cadwedig ein cyffroi ni: onid all hynny ein cyffroi ni, gedwch i farwolaeth ein gwlltio ni: onid all marwolaeth ein gwlltio ni, gedwch i ddŷdd y farn ein hyſcwyd ni, os hynny ni'n hyſcwyd ni, dyrllied a rhwyged poenedigaethau yffern ni yn chwilfriw. Canys yn ddiau (fy mordyr) oni thyccia yr vn o'r rhai hyn, onid edifarhawn er hyn ei hŷd, ond bod yn gyndyn, yna fe an collir ni ôll, ac a'n damnir yn ôl geiriau Criſt: Bellach alwn thagom i ymmadrodd am y pethau ſy'n rhwyſtro, ac yn lluddias edifarhau: y rhai mewn gwirionedd er eu bod yn annifcirioi, etto ar hyn o amſer mi â amlygaf faith rhwyſtr nen attal yn lluddias i edifeirwch. Y cyntaf yw anghredinıaeth, ſef pryd na choelia dynion y pethau â addywedir, ac a brofir allan o air Duw. Dyna'r peth ſy'n peri chwdu i fynu bôb peth da, ac yn gwenwyno dŷn oddifewn, ac yn cadw pôb rhadau daionus oddi wrthynt, fel y mae yn amlwg: Mat. 13. 58. Ni wnaeth efe nemmawr o weithredoedd yno o herwydd eu hanghredıniaeth hwynt. Ac wrth yr Hebreaid y dywedir. Iddynt hwy y pregethwyd yr Efengyl megis i ninnau: eithr y gair a glywſant ni bu fuddiol iddynt, o herwydd nad oedd wedi ei gymmyſcu a ffydd yn y rhai ai clywſant. Felly

nyni

nynt a welwn ymma, er maint â glywom, oni bydd gennym ffydd i gredu, na chawn ddim llesâd oddi wrtho i edifeirwch: Canys anghrediniaeth â dynn ein calonnau at y Cythraul, ac a wrthid bob pûr athrawiaeth i achawdwriaeth, ac a galeda ddynion mor ddiwin yn llwybrau pechod, hyd onid elont ar y diwedd yn ddiofalfrŷd, ac mor ddiglyw ac na ellir cynnyrfu arnynt y dim lleiaf, nac a barnedigaethau, nac a hrugareddau Duw, ond cyfrif y naill â wnânt megis rhuthrau gwŷnt yn chwythu, a chymmeryd y llall yn escus i ddilyn eu brynti. Chwi a gewch weled rhai pan glywant argyoeddi eu pechodau allan o air Duw, a rhrofi oddi yno fod damnedigaeth yn wir ddyledus iddynt, oddi eithr edifarhau o honynt ar frŷs, a dorrant allan ir cyfryw ymadrodd a hwn yn tueddu i angrediniaeth: Os yw y pethau hyn (meddant) fel y dywed efe, Duw a'n helpio, gobeithio nad felly y mae: y mae gennif hyder yr y mdarawafi tra fo gennif ffydd dda yn Nuw, a bod hab ddrygu neb. Ai rhaid i mi golli fy nigrifwch, a'm mantais er eu geirian hwynt? Ai tybied y maent na bydd neb cadwedig, onid a ddarlleno yr Scrythyrau, ac a wrendu ar bregethau? Na atto Duw na byddo cadwedig y fawl nid ŷnt yn gwrndo pregethau yn gastal â hwythau: paham, oni ddichon dyn gartref yn ei dŷ ei hûn, a chanddo lyfrau da, a gweddiau da wasanaethu

Duw yn gystal ac o ddyfod ir eglwys i wrando pregethau, a gwasanaeth? Sywaeth, y mae y cyfryw ddynion yn sefyll gormod yn eu goleu eu hunain, ac yn dangos pa ffoledd, ac annwybodaeth sydd ynddynt. Oblegid a ydynt hwy yn bwriadu bod yn gadwedig drwy foddion eraill, amgen nag â ordeiniodd Duw? neu pan osododd Duw ar lawr ryw-beth yn ei air, a rônt hwy yn erbyn hyn, ac felly gwneuthur Duw yn gelwyddog? Darfyddo i Dduw vnwaith yspysu rhyw-beth, ai brofi yn eu hwynebau, a wrthebant hwy er hynny? wedi dywedyd o Dduw i ni mai pregethiad y gair yw cyffredin gyfewng ein iachawdwriaeth, a obeithiwn ni fod yn gadwedig er i ni wrthod y gair, neu fod heb ei wrando, or hyn lleiaf ei wrando yn anfynych? Ond anffyddlondeb hynod, ac angrediniaeth yw hyn sef pan ddywedo Duw ie, ninnau a ddywedwn nagê, gobeithio nad felly? Ie yn ddiau dyna'r peth sy yn attal, ac yn lluddiaz y ffordd rhag myned at radau Duw, ac yn ein cau ni allan oddiwrth edifeirwch. Yr ail rhwystr yw rhyfygu o drugaredd Dduw: Oblegid os ceryddir dynion yn llyni am eu pechod, au hannog i edifeirwch, yn y man hwy a siaradant yn hoccedus gan ddywed d: Y mae Duw yn drugarog: y mae Duw yn drugarog: Megis pe bai Duw yn drugaredd ôll ac na bai ynddo ddim cyfiawnder: ac felly y mae yr annuwiol

wiol yn gwneuthur trugaredd Dduw yn achlysur i bechu. Yr hyn beth y mae y prophwyd Nahum yn ei geryddu yn llym: Yr Arglwydd (medd efe) sydd hwyrfrydig i ddigofaint, eithr y mae efe yn fawr ei allu, ac ni ddieuoga efe y drygionus. Ond o herwydd i mi grybwyll or blaen am ryfygu yn nhrugaredd Dduw, ai gam-arfer, mi a âf trosto yr awr'hon, gan ewyllysto i chwi ei nodi, a dal sulw arno mal vn or rhwystrau hynod i edifeirwch.

Y trydydd rhwystr yw siampl y lliaws: Canys hynny sydd yn cefnogi, ac yn hyfhau dynion i bechu: megis pan fo llawer o adar wedi ymgasclu yn fintai, hwy a darawant at y rhwyd yn ddiarswyd, ond vn neu ddau, ar eu pennau eu hunain fyddant ofnus: felly esamplau llawer o bech-gyfeillion, a wnânt i ddynion redeg yn hyderus drwy faglau Satan heb arswydo, nac ammeu dim: Am hynny y dywedir yn Exodus, Na ddilyn liaws i wneuthur drŵg. Dymma'r peth sydd yn lluddias llawer tros ben i fyned at Dduw. Canys nid edrychant vn amser i fynu ar Dduw, nac ar ei air, ond craffu a wnânt ar esamplau y byd, a pha beth y bydd rhan fwyaf yn ei wneuthur, gan dybied, os gwnânt hwy fel y mae pawb gan mwyaf yn gwneuthur, neu fel y gwnaeth eu tadau, au teidiau or blaen, eu bôd yn ddigon diogel, ac yn sefyllar dîr gwastad Ac o hyn y cyfyd eu dihareb gythreulig, Gwne-

wch

wch fel y gwnelo y rhan fwyaf a llai a ddywed yn ddrŵg am danoch: Eithr abrgoff â wnaethont â ddywed S. Paul na chydymffurfiwch ar byd hwn.

Y dynionach hyn y rhai â safant ar lawero-edd, a lluosogrwydd a ymresymmant fel hyn: ni welwn ni neb o rai mawrion y byd, neb or pendefigion, neb or cyfoethogion, neb or doethion, ar Synhwyrol yn derbyn yr athrawiaeth hon, ond yn vnig ychydig ffardialach, a rasclach rheiduslawn a hyn arwydd ydyw na thâl dim yr athrawiaeth, ac mai amheûs ydyw, ac nid peth i ni i ymgymmyrredd ag ef. Wele pa feddyliau a ddichon ymlithro i'n pennau: ac mor hoccedus y dichon Sathan osod rhwystr ar ein ffordd, a gorchuddio ein llygaid, a'n harwain yn y tywydd drwy ein pendafadu, ag esampl y lliaws. Am hynny gochelwn y priddellau hyn â gloddiodd Sathan ac ein ffordd, ac na oddewn ein tynnu ymmaith ar meddyliau hyn, ac ar rhesymmau. Y drygionus ydynt ddigon hyderus mai hwynt hwy piau'r bêl, mai hwynt hwy sy yn ennill y gynglwyst, ac nid oes dim ond canu fel ceiliogod cyn ei bod hi yn ddydd: a gorfoleddu yn fawr yn eu plîth hwynt cyn taro vn dyrnod; a hynny o herwydd nad ydym ni ond dyrned o bobl, a hwynt hwy yn fintai anfeidrol; a bod yr hôll fŷd gan mwyaf yn cyttuno ag hwynt i'n llâdd ni. Mal hyn y mae Diafol yn bwrw niwlen tros e llyngaid, ac

yn

yn eu harwain ymmaith yn llefradaidd oddiwrth edifeirwch. Am hynny (frodyr annwyl) safwn yn ddiſigl yngair yr Arglwydd, ac nad ymroddwn i adael ein dwyn i wared gyd â chefn lli, a ffrŵd y lliaws; ond gwybyddwn fod hynny yn vn o ddichellion y cythraul, i'n gyrru ni oddiwrth edifeirwch.

Y pedwerydd rhwyſtr i edifeirwch yw hir arfer o bechu. Canys hynny ſydd yn tynnu ymmaith bôb achreth, a chwithdod o bechod, ac yn ei wneuthur megis yn ail naturiaeth, ac yn ddi chwith; yn gymmaint a bod cyn hawſed i ni newidio naturiaeth, ac ymadael a phechod darfyddo iddo vnwaith ymgyfanſoddi, a myned yn vn a ni drwy hir arfer. Am hyn y dywedir. A ddichon yr Ethiopiad newidia ei liw, neu'r llewpard ei frithni? yna y gellwch chwithau wneuthur dâ, y rhai fuoch gynnefin a gwneuthur drwg. Yno y mae y Prophwyd yn dirio arnom mai cyn anhawſed yw iachau hên ddolur â fagwyd yn yr eſcyrn, ac ymlanhau oddiwrth bechod a anwyd, ac a fagwyd gyd â ni, ag ydyw golchi Ethiopiad yn wynn a newidio brythni y llewpard, yr hyn beth nis gallir heb ddinifrio naturiaeth. Ac yn ddigelwydd, proſed y neb a fynno eſe a gaiff weled cyn anhawſed ymadael â hên gynnefin arfer pa vn bynnag ai o dyngu, o chwareu, o ddywedyd celwydd, o hutteinio, o ddrŵg cymdeithas, neu ryw

bechod

bechod arall, ac ydyw golchi Ethiopiad. Am hynny yr ſcrifennwyd. Er i ti bwnio ffôl mewn morter ym mhlith grawn: etto ni ymêdu ei ffoli-neb ag ef. Yn gymmaint ag tra ſôm yn cadw arfer ar bechu, dirŵs ediſeirwch a gaewyd in herbyn. Y pummed rhwyſtr ym hir ddiangc heb goſpedigaeth, Canys felly y mae yr annuwiol yn caledu yn eu pechod, ac yn myned yn ddiddarbod am edifarhau: megis hên leidr a fai gynnefin â lledratta er ys talm o amſer, ac wedi diangc rhag y carchar a'r crog-bren fydd hyfach ar ei ddilŵg, gan dybied y caiff ddiangc rhag llaw: felly llawer o ddrŵg fucheddwyr aflan â ddilynant hên helynt eu ffieidd-dra yn ddiedifarus, gan feddwl, o herwydd nad ydyw Duw yn eu coſpi yn ebrwydd, ac yn dwyn arnynt amryw ddialeddau, ac arwyddion o'i lid, y cânt eu rhyddhau, a bod yn ddiangol byth. Lle yngwrthwyneb i hyn, pe tarawei ddaw hwynt i lawr yn y man cyngynted ac y pechent, drwy ſaethu taranau at y naill, a mellt at y llall, a glawio tân a brwmſtan ar y trydydd, ſe bared hyn iddynt ofni. O herwydd hyn y dywedir yn S. Petr: hyn gwybyddwch yn gyntaf, y daw yn y dyddiau diweddaf watwarwyr, yn rhodio ar ôl eu trachwantau eu hunain, ac yn dywedyd: pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef, canys er pan ſu farw y tadau y mae pôb peth yn parhau yn yr un ffunyd o ddechreuad y creadwriaeth.

Eithr

Eithr bydded hyspys ir gŵr hŷn, darfyddo i Dduw oedi tros hir amser, a gohirio trwydded y dŷgionus, yr ymddengys efe ar hynt, mal er ei fod yn hîr-ddisgwyl am eu hedifeirwch, etto nid anghofiodd eu camweddau hwynt, ond y maent yn scrifennedig mewn llyfrau coffadwriaeth ger ei fron ef, ac wedi eu pscafnu yn ben-twrr mawr i chwanegu dychrynn ei ddigofaint.

Y chweched rhwystr yw dal sulw ar ddiwedd rhai eraill. Canys pan fai rhai or sawl â fuont yn byw yn ddŷgionus, ac yn ymroi i heintiau anrasion, gan ddilyn y pechodau dygnaf yngolwg y byd, nes bod pawb yn ecsyn bŷs at-tynt, er hynny, ar eu clâf wely yn adrodd ychydig eiriau da, ac yn galw ar Dduw am drugaredd, gan ddywedyd eu gweddiau, a maddeu ir holl fŷd, ac felly marw yn llonydd, peth rhyfedd yw clywed sôn pa ganmol â wna ffyliaid y byd arnynt, pa gystawnhau, gan ddywedyd: efe a wnaeth ddiwedd da tros ben yn gystal ac y gallei undyn ei wneuthur: e fu farw cyn llonydded a'r oen, fe osododd ei bethau mewn trefn dda cyn ei farw.

Dyn y cymmer diffeithwr, ac annuwiol-ddyn arall achlysur â bwriad i brofi: canys meddwl a wna felhyn: Y gŵr ar gŵr oedd cynddrwg ei fuchedd a minneu, neu ac undyn arall, ac etto efe a wnaeth ddiwedd odiaeth, a

phaham

phaham na allaf finneu wneuthur felly? Eithr y mae llygaid y dynion hyn wedi cibddallu sywaeth, canys marw yn llonydd nid yw bôb amser marw yn dduwiol: Llefain am drugaredd Dduw er mwyn dilyn arfer, neu lenwi llygaid y byd, nid yw yn cael Duw yn drugarog: adrodd ychydig weddiau ar flaen y tafod nid marw yn y ffydd ydyw: canys y mae llawer yn gwneuthur y pethau hyn, ac er hynny yn marw yn ressynol.

Yr olaf yw gobeithio byw yn hir: Canys tra fyddo dynion yn ymfodloni yn y gobaith ymma, ymbendafadu y maent mewn pechod, ac oedi a wnânt ddydd eu hedifeirwch fel y gwôr goludog. Luc. 12. Yn breuddwydio am fyw yn hir, ni feddyliodd am Dduw, nac am y bywyd arall, nag am ddyfodiad Crist, a phôb daioni, ond dywedyd ynddo ei hûn: O enaid y mae gennit ddigon o dda wedi ei dryssori tros lawer o flynyddoedd, cymmer y bŷd yn esmwyth, bwytta, ŷf, bydd lawen.

Mal hyn y bydd coeg-ddeillion y byd hwn yn tagu edifeirwch gan ei sychmyrnio drwy ymffoli a gobaith o fyw yn hir. Am hynny fŷ mrodyr annwyl. yr wŷf yn attolwg i chwi er trugareddau Duw yn ymyscaroedd Jesu Grist, na chasso yr vn or rhwystrau cyffredin hyn eich attal rhag edifarhau yn ddioed, ac yn ddiragrith, ond treiddio o honoch yn gefnog

trwy

krîwy r cwbl, rhag yscatkydd os delir chwi heb edifeirwch, a'ch goddiweddyd yn eich pechodau, eich condemnio, a bod o honoch yn golledig yn ôl barn Crist.

D herwydd paham, i benglymmu y cwbl, arswydwn fel y gwnaeth Ezechias wrth glywed brygythion Duw, ymdrist awn ym mlaenllaw, ofnwn Dduw, holwn ein cydwybodau, galarwn am ein pechodau, ac ymostwng oddifewn, mal pan ddêl yr amser ir drygionus, yrhai fuont yn ymrwyfo mewn meluswedd ymma ar y ddaiar fyned îw poenau tragwyddol, y gallom ni y prŷd hynny gael tangnheddyf tragwyddol, a gorphwyfra.

Fel pan ymddangofo Jesu Grist or Nefoedd gyd a'i holl Angelion y caffom gorfenau gogoniant, a theyrnafu gyd â Duw, a'n Hachubwr ei fâb, a'r holl Saint, a'r Angelion ynghanol pôb llawenydd yn y Nefoedd byth bythoedd. Ir hwn lawenydd efe a'n dygo ni ôll yr hwn cyn ddyrutted a'n prynodd, fef Jesu Grist y cyfiawn. Ir hwn gyd a'r Tâd, ar Yspryd Glân y byddo pôb anrhydedd, gogoniant, moliant, gallu, ac Arglwyddiaeth y prŷd hyn, ac yn dragwyddol. Amen.

DIBEN.